# MEINI PRAWF AROLYGU

**ar gyfer**

# SGRINIO BYR O ANSAWDD DA

# GWAITH TROSEDDU IEUENCTID

**yng**

# NGHYMRU a LLOEGR

HMI Probation | 1st Floor Manchester Civil Justice Centre| 1 Bridge Street West| Manchester | M3 3FX| 0161 2405336

**CYFLWYNIAD**

## 1. LLEIHAU AILDROSEDDU

1.1 Asesu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith i leihau aildroseddu

1.2 Cynllunio yn cynyddu'r tebygolrwydd fod gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud i leihau aildroseddu

1.3 Rheolaeth a gwaith partneriaeth yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i leihau aildroseddu

## 2. DIOGELU'R CYHOEDD

2.1 Asesu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith i reoli'r risg o niwed i eraill

2.2 Cynllunio'n cynyddu'r tebygolrwydd o ddioddefwyr yn cael eu diogelu

2.3 Y gwaith gofynnol yn cael ei gyflawni i reoli'r risg o niwed i eraill ac mae hyn o ansawdd da

2.4 Rheolaeth effeithiol yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael ei ddiogelu

## 3. DIOGELU'R PLENTYN NEU'R UNIGOLYN IFANC

3.1 Asesu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc a lleihau eu breguster

3.2 Cynllunio'n cynyddu'r tebygolrwydd o blant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a bod eu breguster yn cael ei leihau

3.3 Rheolaeth effeithiol yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a bod eu breguster yn cael ei leihau

## 4. SICRHAU EU BOD YN CYFLAWNI EU DEDFRYD[1]

4.1 Mae'r tebygolrwydd o gael canlyniadau llwyddiannus o ddedfryd yn cael ei gynyddu drwy ymgysylltiad o ansawdd da gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a'u teulu

4.2 Plant a phobl ifanc yn cyflawni'r ddedfryd maent wedi'i derbyn

4.3 Mae'r tebygolrwydd o gael canlyniad llwyddiannus o ddedfryd yn cael ei gynyddu drwy roi sylw i iechyd, lles, addysg, hyfforddiant, cyflogaeth ac anghenion eraill y plentyn neu unigolyn ifanc

4.4 Rheolaeth effeithiol yn sicrhau bod amcanion y System Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu diwallu

---

[1] Mae'r gair 'dedfryd' yn cyfeirio at bob dedfryd y llys, boed yn y ddalfa neu yn y gymuned.

## CYFLWYNIAD

Mae’r meini prawf arolygu hyn i’w defnyddio ar gyfer Sgrinio Byr o Ansawdd Da (SQS) o waith troseddu ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Mae’r fersiwn hon yn berthnasol i bob arolwg gyda gwaith maes gan ddechrau o 1 Medi 2014 ymlaen.

Maent yn esbonio pa agweddau ar waith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu sy’n cael eu harolygu. Mae arolygyddion fel arfer yn rhoi eu barn ar berfformiad yn erbyn pob maen prawf. Mae pob maen prawf yn cael ei ddilyn gan restr o'r prif ddangosyddion y mae arolygyddion yn eu defnyddio i asesu perfformiad.

Mae'r rhaglen SQS yn canolbwyntio ar ansawdd gwaith achos ar ddechrau'r ddedfryd hyd at yr amser ar ôl y ddedfryd pan ddylai cynlluniau cychwynnol fod ar waith. Mae pob un o'r meini prawf yn cael eu hystyried o fewn yr amserlen hon, ynghyd ag unrhyw adolygiadau disgwyliedig a thystiolaeth o gydymffurfiaeth hyd at ddyddiad yr arolygiad. Mae'n trin y gwaith hwn fel dangosydd o'r tebygolrwydd o ganlyniadau cadarnhaol ar ôl cwblhau'r ddedfryd lawn.

Cynhelir arolygiadau SQS mewn ardaloedd awdurdod lleol ar draws yr ystod eang o berfformiadau a gyhoeddwyd.

Mae'r SQS yn rhedeg ochr yn ochr â'r rhaglen Arolygiad Llawn ar y Cyd (FJI) gan ddefnyddio is-set yn bennaf o'r meini prawf a'r dangosyddion o'r rhaglen honno. Mae meini prawf ar wahân yn cael eu cyhoeddi ar gyfer y rhaglen FJI.

Arolygiad Prawf EM
Awst 2014

### Sylwch:

YOT – Defnyddir y term generig YOT, gan mai hwn yw’r term a geir mewn deddfwriaeth (Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998). Fodd bynnag rydym yn cydnabod bod ardaloedd lleol yn gweithredu amrywiaeth o fodelau a thermau i gyflawni’r amcanion a nodir yn y ddeddfwriaeth. Byddwn yn arolygu gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu sy’n debygol o aildroseddu, waeth bynnag pwy sy’n cyflawni’r gwaith hwnnw.

Rheolaeth - lle defnyddir y term ‘rheolaeth’ o fewn y meini prawf hyn, mae’n berthnasol i arweinyddiaeth, rheolaeth a gwaith partneriaeth sy’n gysylltiedig â mynd i’r afael ag ymddygiad troseddol gan blant a phobl ifanc, waeth bynnag pwy sy’n ei gyflawni.

# 1. LLEIHAU AILDROSEDDU

Mae aildroseddu'n cael ei leihau drwy'r gwasanaethau a ddarperir drwy'r YOT ac eraill. Mae asesiad cychwynnol o ansawdd da a chynllunio gyda rheolaeth effeithiol a gwaith partneriaeth yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus.

## 1.1 Asesu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith i leihau aildroseddu

1.1.1 Mae anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu'n cael eu deall yn drylwyr, drwy gynnal asesiad amserol ac o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Cynhelir asesiad cynhwysfawr ac o ansawdd da o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r plentyn neu unigolyn ifanc sydd wedi troseddu, sy'n cynnwys agweddau perthnasol ar eu cyd-destun lleol neu eu cefndir teuluol. Asesiad yn gywir, yn amserol ac yn ddadansoddol.*
- *Asesiad digonol o iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) ac anghenion camddefnyddio sylweddau, yn enwedig gan fod y rhain yn ymwneud â aildroseddu.*
- *Ceir asesiad digonol o anghenion addysg, hyfforddiant, cyflogaeth (ETE), yn enwedig gan fod y rhain yn ymwneud â aildroseddu.*
- *Ceir asesiad digonol o drefniadau byw a'r gallu i fagu plant, yn enwedig gan fod y rhain yn ymwneud â aildroseddu.*
- *Dylanwadau cadarnhaol fel ffactorau cefnogol a rhag-gymdeithasol yn cael eu nodi a'u hasesu.*
- *Barn plant a phobl ifanc, eu rhieni / gofalwyr a thystiolaeth arall yn cael eu dwyn ynghyd i ffurfio asesiad cydlynol.*
- *Sylw digonol yn cael ei roi i rwystrau rhag ymgysylltu a ffactorau gwahaniaethol posibl eraill.*
- *Mae asesu'n benodol yn rhoi digon o sylw i iaith gyntaf, neu iaith a ffafrir, y plentyn neu'r unigolyn ifanc.*
- *Mae asesiadau'n ystyried yn ddigonol asesiadau eraill a wnaed yn flaenorol, gan gynnwys y rhai hynny o asiantaethau eraill.*
- *Sylw digonol yn cael ei roi i nodi a chael mynediad at asesiadau a gynhelir gan asiantaethau eraill.*
- *Mae'r holl staff perthnasol, ac asiantaethau eraill yn ôl yr angen, yn weithredol ac â rhan ystyrlon yn yr asesiad.*
- *Mae canlyniadau'r asesiadau yn cael eu rhannu fel bo'n briodol gyda phob gweithiwr sy'n rhan o'r achos.*
- *Asesiadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, fel sy'n ofynnol gan anghenion yr achos. Mae hyn yn cynnwys ar ddechrau'r ddedfryd pan gynhaliwyd yr asesiad cychwynnol ar gyfer adroddiad llys, ac yn dilyn unrhyw newid sylweddol yn amgylchiadau'r plentyn neu'r unigolyn ifanc neu pan dderbynnir gwybodaeth newydd.*
- *Troseddu,, ac ymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddu yn cael ei fonitro'n weithredol ac yn effeithiol gan staff, ac yr ymateb iddynt yn briodol.*

1.1.2 Y llysoedd yn deall y plentyn neu'r unigolyn ifanc, eu hamgylchiadau a'u hagwedd yn cael eu hyrwyddo gan adroddiadau o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Adroddiadau yn effeithiol o ran dylanwadu ar y canlyniad.*
- *Adroddiadau o ansawdd da ac yn cwrdd ag anghenion y darllenydd.*
- *Adroddiadau yn cynnwys asesiad dadansoddol trylwyr o ymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddu, risg o niwed i eraill a bregusrwydd.*
- *Adroddiadau yn cynnwys asesiad dadansoddol trylwyr o'r tebygolrwydd o aildroseddu, risg o niwed i eraill a breguster.*
- *Lle bo'n berthnasol, adroddiadau yn cynnwys asesiad trylwyr o iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol), camddefnyddio sylweddau ac anghenion ETE.*
- *Adroddiadau'n darparu darlun clir a chywir o'r plentyn neu'r unigolyn ifanc, gan gynnwys lle bo'n berthnasol, aeddfedrwydd a ffactorau amrywiaeth neu wahaniaethol posibl perthnasol eraill, fel sy'n ofynnol gan ddiben yr adroddiad.*
- *Lle bo'n berthnasol, bod digon o sylw yn cael ei roi i effaith y ddedfryd o garchar.*
- *Adroddiadau yn cynnwys cynigion clir a phriodol sy'n gymesur â difrifoldeb y drosedd ac asesiad y plentyn neu'r unigolyn ifanc.*
- *Rheolaeth a threfniadau eraill yn sicrhau ansawdd yr adroddiadau.*

## 1.2 Cynllunio yn cynyddu'r tebygolrwydd fod gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud i leihau aildroseddu

1.2.1 Trefniadau amserol o ansawdd da ar waith er mwyn gweithio i leihau aildroseddu.

Dangosyddion ansawdd:

- *Cynlluniau ymyrryd yn cwrdd â'r anghenion a aseswyd, ac yn cael eu targedu ar y ffactorau hynny sydd fwyaf tebygol o leihau troseddu.*
- *Cynlluniau yn rhoi digon o sylw i iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) ac anghenion camddefnyddio sylweddau, yn enwedig gan fod y rhain yn ymwneud â aildroseddu.*
- *Cynlluniau yn rhoi digon o sylw i anghenion ETE, yn enwedig gan fod y rhain yn ymwneud â aildroseddu.*
- *Cynlluniau yn rhoi digon o sylw i drefniadau byw a'r gallu i fagu plant, yn enwedig gan fod y rhain yn ymwneud â aildroseddu.*
- *Cynlluniau ymyrryd yn cael eu rhoi mewn trefn yn ôl y risg o niwed, angen yn ymwneud â throseddu ac mewn achosion priodol, er mwyn lleihau breguster.*
- *Blaenoriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i gryfhau neu atgyfnerthu ffactorau cadarnhaol.*
- *Nodau clir, penodol a chyraeddadwy yn cael eu gosod sy'n berthnasol ac yn ystyrlon i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc.*
- *Amcanion canlyniadau a dwyster y ddarpariaeth yn ymateb yn briodol i ffactorau amrywiaeth, ffactorau gwahaniaethol posibl ac amgylchiadau'r plentyn unigol neu'r unigolyn ifanc.*
- *Yn benodol, mae cynllunio'n rhoi digon o sylw i iaith gyntaf, neu iaith a ffafrir, y plentyn neu'r unigolyn ifanc.*
- *Cynlluniau yn adlewyrchu barn y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn glir a lle bo hynny'n berthnasol, eu rhieni / gofalwyr ynghylch blaenoriaethau ar gyfer newid.*
- *Blaenoriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i gyfiawnder adferol a diwallu anghenion dioddefwyr.*

- *Staff ac asiantaethau eraill, gan gynnwys paneli troseddwyr ifanc ar gyfer gorchmynion atgyfeirio, yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddatblygu'r cynllun.*

1.2.2 Cynlluniau ynghylch dedfryd o garchar o ansawdd da ac yn cefnogi'r ddarpariaeth o ddedfryd wedi'i hintegreiddio'n dda.

Dangosyddion ansawdd:

- *Staff, a phartneriaid lle bo angen, â rhan weithredol ac ystyrlon wrth ddatblygu ac adolygu cynllun ynghylch dedfryd o garchar.*
- *Cynlluniau ynghylch dedfryd o garchar yn adlewyrchu'n glir yr asesiad o'r ffactorau hynny sydd fwyaf tebygol o leihau troseddu.*
- *Cynlluniau ynghylch dedfryd o garchar yn adlewyrchu barn y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn glir, a lle bo hynny'n berthnasol, eu rhieni / gofalwyr.*
- *Mae cynlluniau ynghylch dedfryd o garchar yn glir ynghylch pa agweddau sydd i'w cyflawni yn ystod yr holl gyfnodau yn y ddalfa ac yn y gymuned o'r ddedfryd.*
- *Digon o ffocws yn cael ei roi i gynllunio trefniadau adsefydlu drwy gydol y cyfnod yn y carchar o'r ddedfryd.*

## 1.3 Rheolaeth a gwaith partneriaeth yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i leihau aildroseddu.

1.3.1 Mae rheolwyr yn effeithiol wrth sicrhau bod aildroseddu yn cael sylw drwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Rheolaeth a threfniadau eraill yn sicrhau ansawdd y gwaith i asesu a mynd i'r afael â aildroseddu.*
- *Partneriaid yn darparu digon o adnoddau a chefnogaeth i'r YOT er mwyn iddynt wneud cyfraniad effeithiol i asesu a chynllunio.*
- *Rheolwyr yn sicrhau bod staff sy'n ymgymryd â gwaith i leihau aildroseddu wedi cael digon o hyfforddiant, profiad a chymwysterau.*
- *Mae systemau lleol effeithiol ac amserol i gynorthwyo staff i fonitro ymddygiad troseddol*

## 2. DIOGELU'R CYHOEDD

Mae'r dioddefwyr a dioddefwyr posibl yn cael eu diogelu drwy reoli'r risg o niwed i eraill yn effeithiol. Mae asesiad cychwynnol o ansawdd da a chynllunio gyda rheolaeth effeithiol a gwaith partneriaeth yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus.

### 2.1 Asesu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith i reoli'r risg o niwed i eraill

2.1.1 Risg o niwed i eraill a achosir gan y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn cael ei ddeall yn drwyadl, drwy asesiad amserol o ansawdd da sy'n ystyried anghenion dioddefwyr.

Dangosyddion ansawdd:

- *Asesiad risg o niwed, gan gynnwys sgrinio cychwynnol, o ansawdd da; yn amserol, yn gynhwysfawr ac yn ddadansoddol; sy'n mynd i'r afael â phob agwedd ar ymddygiad niweidiol neu a allai fod yn niweidiol sy'n berthnasol i'r achos.*
- *Mae'r asesiad yn nodi'n glir natur a lefel y perygl i ddioddefwyr a dioddefwyr posibl, gan gynnwys y cyhoedd a staff, ac yn ymateb yn briodol i unrhyw ffactorau amrywiaeth neu wahaniaethol posibl yn yr achos.*
- *Rhoddir sylw penodol i anghenion dioddefwyr bregus, y cymhelliant a'r cyd-destun y gwnaed y niwed, neu a allai ddigwydd.*
- *Sgrinio'r risg o niwed yn amserol ac o ansawdd digonol.*
- *Mae'r dosbarthiad Risg o Niwed Difrifol (RoND), categori a lefel Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA), lle bo'n berthnasol, yn glir ac yn gywir ac yn cael eu cyfleu i'r holl staff perthnasol ac asiantaethau eraill.*
- *Adroddiadau i'r llysoedd ac eraill yn cynnwys asesiad clir a thrylwyr o'r risg o niwed i eraill.*
- *Asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd yn dda yn yr asesiad o risg o niwed, gan gynnwys, lle bo'n briodol, wrth ymgymryd asesiadau aml-asiantaethol.*
- *Asesiadau yn ystyried asesiadau MAPPA, asiantaethau eraill ac asesiadau blaenorol yn ddigonol.*
- *Mewn achosion â dedfryd o garchar, mae'r asesiad yn glir ynglŷn â'r risg o niwed sy'n gymwys yn y ddalfa ac yn y gymuned.*

### 2.2 Cynllunio'n cynyddu'r tebygolrwydd o ddioddefwyr yn cael eu diogelu

2.2.1 Cynlluniau amserol ac o ansawdd da yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddioddefwyr a dioddefwyr posibl yn cael eu diogelu a bod y risg o niwed i eraill yn cael ei lleihau.

Dangosyddion ansawdd:

- *Cynllun cynhwysfawr a chyfredol i reoli risg o niwed yn cael ei gwblhau lle bo angen; mae'n cynnwys risg i ddioddefwyr penodol lle bo hynny'n berthnasol.*

- *Blaenoriaeth benodol yn cael ei rhoi i oresgyn rhwystrau rhag ymgysylltu gan y plentyn neu'r unigolyn ifanc a allai gael effaith ar reoli'r risg o niwed.*
- *Cynlluniau i reoli risg o niwed yn glir a phenodol, yn briodol i amgylchiadau'r achos, gyda chyswllt clir rhwng asesiad a'r cynllun.*
- *Cynlluniau yn rhagweld newidiadau yn y risg o niwed / ffactorau difrifol lle bynnag y bo'n ddichonadwy, ac yn cynnwys cynlluniau wrth gefn digonol.*
- *Mae cynlluniau'n fanwl ynghylch rolau a chyfrifoldebau ar gyfer eu cyflawni.*
- *Trefniadau rhannu gwybodaeth am yr achos gyda phartneriaid neu eraill yn glir ac yn fanwl gywir. Lle bo'n briodol, maent yn cael eu deall gan y rhai sydd â rhan, ac maent yn cytuno arnynt.*
- *Cynlluniau yn cael eu cyfleu i bawb sy'n gysylltiedig â'u cyflawni, ac maent yn cytuno arnynt.*
- *Mewn achosion â dedfryd o garchar, mae cynlluniau'n glir ynghylch pa gamau sydd i'w cymryd yn ystod y cyfnod yn y carchar o'r ddedfryd, gan gynnwys lleihau'r risg o niwed i baratoi ar gyfer rhyddhau, ac yn ystod y cyfnod cymunedol.*
- *Asiantaethau yn cydweithio yn dda wrth gynllunio gwaith risg o niwed.*
- *MAPPA yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer achosion addas.*
- *Cynlluniau ymyrryd yn cynnwys camau gweithredu i reoli risg o niwed lle bo angen ac yna'n cael eu rhoi mewn trefn yn ôl risg o niwed.*

## 2.3 Y gwaith gofynnol yn cael ei gyflawni i reoli'r risg o niwed i eraill ac mae hyn o ansawdd da

2.3.1 Dioddefwyr yn cael eu diogelu a risg o niwed i eraill yn cael ei leihau drwy reolaeth weithredol drwy gydol y ddedfryd.

Dangosyddion ansawdd:

- *Risg o niwed ei rheoli'n weithredol drwy gydol y ddedfryd.*
- *Risg o niwed yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac yn drylwyr ar adegau priodol ac yn dilyn newid sylweddol a allai beri pryder.*
- *Newidiadau yn y ffactorau risg o niwed yn cael eu canfod yn gyflym gan weithredu arnynt yn briodol, gan gynnwys defnyddio gweithrediadau torri amodau mewn achosion priodol i ddiogelu'r cyhoedd.*
- *Cymerir camau, pan fo angen, i fonitro ac amddiffyn diogelwch dioddefwyr a dioddefwyr posibl yn enwedig y rhai hynny a ystyrir yn fregus.*

## 2.4 Rheolaeth effeithiol a gwaith partneriaeth yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael ei ddiogelu

2.4.1 Rheolwyr yn effeithiol wrth sicrhau bod y risg o niwed i eraill yn cael ei rheoli'n gywir, drwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Rheolaeth weithredol o waith risg o niwed yn sicrhau bod ansawdd yr arfer yn cael ei gyflawni o fewn fframwaith polisi ac arfer clir, gyda chyfrifoldebau dros reoli risg o niwed yn cael ei ddeall a'i gymhwyso gan bob staff ac asiantaeth briodol.*

- *Lle bo fforymau mewnol yn cyfrannu at oruchwylio gwaith i reoli risg o niwed, yna bod y rhain yn effeithiol.*

## 3. DIOGELU'R PLENTYN NEU'R UNIGOLYN IFANC

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu ac mae eu breguster yn cael ei leihau drwy reolaeth gychwynnol o achosion yn effeithiol gan yr YOT a'i bartneriaid. Mae'r YOT yn gwneud cyfraniad effeithiol at drefniadau diogelu plant amlasiantaethol.

### 3.1 Asesu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc a lleihau eu breguster.

3.1.1 Anghenion diogelu plant a breguster yn cael eu deall yn drwyadl, drwy asesiad amserol o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Asesu amserol ac o ansawdd da gan yr YOT a'i bartneriaid yn sefydlu lefel diogelwch a breguster y plentyn neu'r unigolyn ifanc.*
- *Os yw gweithdrefnau diogelu plant ffurfiol angenrheidiol yn cael eu gweithredu. Yn yr achosion hyn, mae ymgysylltiad effeithiol ac amserol â threfniadau diogelu plant lleol i gefnogi bod asesiad diogelu plant yn cael ei gwblhau.*
- *Asiantaethau'n rhannu gwybodaeth yn briodol.*
- *Mae'r asesiad yn nodi'n glir natur a lefel y risg i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc, ac yn nodi'n briodol unrhyw ffactorau ethnigrwydd neu amrywiaeth eraill, gan gynnwys lle mae'r rhain yn ymwneud ag iaith gyntaf, neu'r iaith a ffafrir gan y plentyn.*
- *Y plentyn neu'r person ifanc a lle bo'n briodol, rhieni / gofalwyr yn cael cymryd rhan weithredol yn yr asesiad.*
- *Ceir ymgysylltiad effeithiol gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wrth gynnal yr asesiad, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan wybodaeth a gafwyd o unrhyw gysylltiad blaenorol.*
- *Asesiad yn ystyried rhai a wnaed yn flaenorol gan yr YOT ac asiantaethau eraill gan gynnwys yr heddlu, sefydliadau diogel, gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, addysg, iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.*
- *Mewn achosion o garchar, ac achosion lle mae'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn cael ei roi mewn gofal diogel, mae'r asesiad yn glir am y breguster sy'n berthnasol yn y sefydliad ac yn y gymuned, ac yn cael ei gyfleu'n effeithiol i bawb sy'n ymwneud â'r achos.*
- *Asesiad o freguster yn cael ei adolygu'n rheolaidd ar adegau priodol ac yn dilyn newid sylweddol a allai beri pryder.*
- *Adroddiadau i'r llysoedd ac eraill yn cynnwys asesiad clir a thrylwyr o freguster y plentyn neu unigolyn ifanc.*

## 3.2 Cynllunio'n cynyddu'r tebygolrwydd o blant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a bod eu breguster yn cael ei leihau

3.2.1 Cynlluniau amserol ac o ansawdd da yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu ac yr ymdrinnir â'u breguster.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae cynllun cynhwysfawr a chyfredol yn cael ei gwblhau, sy'n amlwg yn ystyried ethnigrwydd ac amrywiaeth, i leihau breguster lle dengys asesiad bod angen diogelu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc.*
- *Mae'r cynllun yn glir a phenodol ac yn mynd i'r afael â risgiau ac anghenion y plentyn neu'r unigolyn ifanc sydd wedi'u nodi yn yr asesiad.*
- *Cynlluniau yn dangos bod sylw digonol yn cael ei roi i iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) ac i leihau'r camddefnydd o sylweddau.*
- *Cynlluniau yn rhoi sylw digonol i anghenion ETE, yn enwedig lle mae'r rhain yn ymwneud â diogelu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a lleihau eu breguster.*
- *Cynlluniau yn rhoi sylw digonol i drefniadau byw a'r gallu i fagu plant, lle mae'r rhain yn ymwneud â diogelu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a lleihau eu breguster.*
- *Mae'r staff yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau diogelu plant a sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu cyfraniad yr YOT yn gywir.*
- *Lle bo angen, bod staff yn herio penderfyniadau asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod cynlluniau priodol diogelu plant yn eu lle.*
- *Cynlluniau yn glir a manwl am rolau a chyfrifoldebau ac yn cael eu cyfleu'n effeithiol i'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â'u darpariaeth.*
- *Trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth am yr achos gyda phartneriaid neu eraill yn glir ac yn fanwl gywir.*
- *Lle bo'n berthnasol, bod cynlluniau i ddiogelu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a lleihau eu breguster yn cael eu hintegreiddio i gynlluniau eraill o waith gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc.*
- *Ym mhob achos lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi yn yr ystâd ddiogel, bod cynlluniau yn nodi'r gwaith sydd i'w wneud yn y sefydliad, wrth baratoi ar gyfer eu rhyddhau i'r gymuned, ac wedi hynny.*
- *Asiantaethau yn cydweithio yn dda wrth gynllunio prosesau i ddiogelu plant a phobl ifanc a lleihau eu breguster. Cyfraniad effeithiol yn cael ei wneud gan yr YOT at gynlluniau asiantaethau eraill.*
- *Cynlluniau i reoli diogelu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar adegau priodol, ac yn cael eu haddasu yn ôl yr angen.*
- *Bod pob atgyfeiriad angenrheidiol yn cael eu gwneud i asiantaethau eraill i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc, ac unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc arall sydd wedi'u heffeithio.*

## 3.3 Rheolaeth effeithiol a gwaith partneriaeth yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a bod eu breguster yn cael ei leihau.

3.3.1 Bod rheolwyr yn sicrhau bod gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc a lleihau eu breguster yn cael blaenoriaeth ddigonol ac wedi'i ddarparu'n gywir ar ddechrau'r ddedfryd drwy ddarparu gwasanaethau priodol ac o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Rheolaeth weithredol o waith i ddiogelu a lleihau breguster plant a phobl ifanc yn sicrhau ansawdd yr arfer ac yn cael ei wneud o fewn fframwaith polisi ac arfer clir, gyda dealltwriaeth o gyfrifoldebau, a'u bod yn cael eu cymhwyso gan yr holl staff ac asiantaethau perthnasol.*
- *Lle mae fforymau mewnol yn cyfrannu at oruchwylio gwaith i reoli diogelu ac i leihau breguster, yna mae'r rhain yn effeithiol.*

## 4. SICRHAU EU BOD YN CYFLAWNI EU DEDFRYD

Mae ymgysylltiad cychwynnol effeithiol gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cydymffurfio â'u dedfrydau, rhoi sylw i iechyd a lles y plentyn neu unigolyn ifanc gyda rheolaeth effeithiol a gwaith partneriaeth yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau effeithiol o'r ddedfryd.

### 4.1 Mae'r tebygolrwydd o gael canlyniadau llwyddiannus o ddedfryd yn cael ei gynyddu drwy ymgysylltiad o ansawdd da gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a'u teulu

4.1.1 Y plentyn neu'r unigolyn ifanc a'u rhieni / gofalwyr yn cael eu cynnwys yn ystyrlon drwy gydol eu cyswllt cychwynnol â'r YOT.

Dangosyddion ansawdd:

- *Ymgysylltiad gweithredol ac ystyrlon gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a'r rhieni / gofalwyr i gynnal asesiadau ac adolygiadau.*
- *Asesiadau yn caniatáu digon o gyfle i blant a phobl ifanc ddweud eu stori eu hunain.*
- *Asesiadau yn adlewyrchu barn y plentyn neu'r unigolyn ifanc, y rhiant / gofalwyr ac unrhyw un arwyddocaol arall am eu hanghenion.*
- *Plant a phobl ifanc a'u rhieni / gofalwyr yn deall adroddiadau ac yn cael copi cyn dyddiad yr achos llys.*
- *Plant a phobl ifanc a'u rhieni / gofalwyr yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau, ac yn cael copi'n amserol*
- *Cynlluniau yn ystyrlon i blant a phobl ifanc, yn cael eu hysgrifennu mewn iaith y maent yn ei deall ac yn amlwg yn adlewyrchu eu barn ar flaenoriaethau ar gyfer newid. Sylw digonol yn cael ei roi i sicrhau eu bod yn deall a lle bo'n bosibl, yn berchen arnynt.*

4.1.2 Mae'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus yn cael ei gynyddu drwy nodi ac ymateb i rwystrau rhag ymgysylltiad effeithiol.

Dangosyddion ansawdd:

- *Ceir asesiad amserol o ansawdd da o rwystrau posibl rhag ymgysylltu a chael mynediad i wasanaethau gan y plentyn neu'r unigolyn ifanc, gan gynnwys anghenion dysgu, anabledd a ffactorau gwahaniaethol neu amrywiol eraill posibl. Lle bo'n briodol, cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i liniaru eu heffaith.*
- *Sylw digonol yn cael ei roi i nodi iaith gyntaf, neu iaith a ffafrir, y plant a phobl ifanc a'u rhieni / gofalwyr. Lle bo'n briodol, rhoddir sylw digonol i alluogi'r plentyn neu berson ifanc a'u rhieni / gofalwyr i weithio gyda'r YOT yn eu hiaith gyntaf, neu eu yn eu hiaith o ddewis.*
- *Rhoddir sylw penodol ym mhob achos i ddeall a mynd i'r afael ag anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu plant a phobl ifanc i sicrhau bod dulliau o weithio yn diwallu eu hanghenion unigol.*
- *Mae asesiadau a chynlluniau i ymdrin â ffactorau amrywiaeth a rhwystrau rhag ymgysylltu'n cael eu cyfathrebu'n glir i bawb sy'n ymwneud â'r achos.*

- *Sylw digonol yn cael ei roi i faterion o freguster ac iechyd a lles, lle mae'r rhain yn gweithredu fel rhwystr rhag ymgysylltu'n effeithiol â'r gwasanaeth.*

## 4.2 Plant a phobl ifanc yn cyflawni'r ddedfryd maent wedi'i derbyn

4.2.1 Cydymffurfir â gofynion cychwynnol y ddedfryd a lle bo'n briodol, cymerir camau gorfodi os na fydd cydymffurfiaeth.

Dangosyddion ansawdd:

- *Y plentyn neu'r person ifanc a lle bo'n briodol, eu rhieni / gofalwyr, yn deall gofynion y ddedfryd.*
- *Staff yn ysgogi plant a phobl ifanc i gydymffurfio â'r ddedfryd.*
- *Cymerir camau i ddeall a mynd i'r afael â rhwystrau i gydymffurfio.*
- *Plant a phobl ifanc yn cydymffurfio â'u dedfryd neu, mewn achosion priodol, mae cydymffurfiad â'r ddedfryd yn gwella.*
- *Os yw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn methu â chydymffurfio â'r ddedfryd, ceir ymateb priodol, gan gynnwys camau torri amodau lle bo angen.*
- *Trefnir bod cyswllt digonol gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc i fodloni gofynion y ddedfryd.*

## 4.3 Mae'r tebygolrwydd o gael canlyniad llwyddiannus o ddedfryd yn cael ei gynyddu drwy roi sylw i iechyd, lles, addysg, hyfforddiant, cyflogaeth (ETE) ac anghenion eraill y plentyn neu unigolyn ifanc

*4.3.1* Sylw digonol yn cael ei roi i iechyd, lles, ETE ac anghenion eraill y plentyn neu'r unigolyn ifanc, yn enwedig lle y gallai hyn weithredu fel rhwystr i ganlyniadau llwyddiannus gan y ddedfryd.

Dangosyddion ansawdd:

- *Cyfeiriadau gofynnol yn cael eu gwneud i fynd i'r afael ag iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol), camddefnyddio sylweddau, ETE, gofal cymdeithasol ac anghenion eraill sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r unigolyn ifanc.*
- *Staff ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i hyrwyddo iechyd, lles, ETE ac anghenion eraill y plentyn neu'r unigolyn ifanc, ac yn eu cefnogi ar ddechrau eu dedfryd.*

## 4.4 Mae cyfraniad cychwynnol rheolwyr a phartneriaid yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd amcanion y System Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu diwallu

4.4.1 Mae rheolwyr a phartneriaid yn effeithiol wrth sicrhau bod yr YOT yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd da ac yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc.

Dangosyddion ansawdd:

- *Rheolwyr â'r lefel angenrheidiol o wybodaeth a sgiliau i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol o staff a gwaith.*

- *Staff, secondeion a gwirfoddolwyr yn cael eu goruchwylio, eu hyfforddi (gan gynnwys drwy sefydlu staff newydd) a'u cefnogi'n dda i gyflawni eu gwaith i safon uchel, o fewn fframwaith sicrwydd ansawdd clir, cyson.*
- *Rheolwyr yn sicrhau bod cofnodion achos yn gywir ac yn amserol ac yn cofnodi'r gwaith sydd wedi ei wneud yn glir.*
- *Staff yn cael eu hyfforddi i adnabod ac ymateb yn briodol i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, a ffactorau amrywiaeth neu wahaniaethol posibl eraill.*
- *Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ac ymateb i achosion nad ydynt yn cydymffurfio o fewn fframwaith polisi ac arfer clir.*
- *Gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys gyda gofal cymdeithasol plant lleol, addysg, iechyd a gwasanaethau llety, yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad at y gwasanaethau maent eu hangen, gan gynnwys y rhai i fynd i'r afael ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.*